**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

28 Chwefror 2023

**Meddyginiaeth ar gyfer pryderon iechyd meddwl**

Annwyl Russell,

Fel y gwyddoch efallai, rydym wrthi'n cynnal ymchwiliad i wasanaethau ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae ein hymchwiliad wedi'i ysgogi gan leisiau plant a phobl ifanc. Rydym yn benderfynol y bydd eu safbwyntiau a'u profiadau yn llywio ein hadroddiad terfynol a'i argymhellion.

Yn ystod yr hydref, fe wnaethom gynnal ymweliadau ymgysylltu anffurfiol ledled Cymru i siarad â rhieni geni (rhieni sydd wedi cael/sydd yn y broses o gael plentyn wedi'i dynnu o'u gofal) am eu profiadau o'r system ofal a'u safbwyntiau yn ei chylch. Ar 26 Ionawr, cynhaliwyd digwyddiad rhanddeiliaid gyda rhieni geni i ategu ein hymweliadau ymgysylltu er mwyn rhoi cyfle i gynifer o rieni ifanc â phosibl gyfrannu at ein gwaith. Roedd gan fwyafrif helaeth y rhieni ifanc hyn brofiad o fod mewn gofal eu hunain, gyda llawer yn dweud wrthym eu bod wedi profi trawma sylweddol yn ystod plentyndod.

Roedd llawer o'r pethau a ddywedodd y bobl ifanc wrthym yn peri gofid a phryder mawr. Hoffwn godi un o'u pryderon gyda chi yn benodol: eglurodd rhai rhieni geni wrthym fod arnynt ofn siarad â'u meddyg teulu am sgil-effeithiau negyddol meddyginiaeth ar bresgripsiwn i wella eu hiechyd meddwl. Maent yn ofni y gallai codi pryderon am sgil-effeithiau gael ei ddehongli gan weithwyr cymdeithasol fel amharodrwydd i gymryd camau i wella eu hiechyd meddwl, ac y gallai hyn, yn ei dro, gyfrannu at weithwyr cymdeithasol neu eraill yn gwneud dyfarniadau negyddol am eu gallu i roi gofal digonol a phriodol i'w baban neu blentyn.

Enghraifft 1: Dywedodd un rhiant geni wrthym ei bod yn cael trafferth gydag iechyd meddwl gwael a gorbryder. Rhoddodd ei meddyg bresgripsiwn iddi ar gyfer gwrthiselyddion. Fodd bynnag, mae hi wedi stopio cymryd y gwrthiselyddion am eu bod wedi gwneud iddi deimlo'n waeth ac ymddwyn yn

afreolaidd. Pan wnaethom ofyn iddi a oedd hi wedi siarad â'i meddyg teulu am ei phryderon, dywedodd wrthym fod meddygon teulu yn tueddu i godi dos y gwrthiselyddion os bydd cleifion yn profi sgil-effeithiau fel ei rhai hi. Mae'n poeni y gallai dos uwch wneud y sgil-effeithiau yn waeth ac, os felly, y byddai hynny'n ei gwneud yn anoddach iddi ofalu am ei phlentyn.

Enghraifft 2: Dywedodd un rhiant geni wrthym fod ei gorbryder a'i hiselder yn golygu ei bod yn cael trafferth cysgu. Rhoddodd ei meddyg teulu bresgripsiwn iddi ar gyfer tabledi cysgu. Fodd bynnag, mae hi wedi stopio cymryd y tabledi oherwydd eu bod mor gryf mae'n ei chael yn anodd dihuno yn y bore. Teimlai fod y tabledi wedi gwneud iddi golli apwyntiadau a chyfarfodydd pwysig, a'i gwneud yn anodd iddi hyd yn oed ddihuno gyda'i phlentyn.

Yn y ddau achos hyn, mae'r menywod ifanc hyn wedi stopio cymryd eu meddyginiaeth ar bresgripsiwn oherwydd effaith y sgil-effeithiau ar eu gallu i ofalu am eu plant. Nid ydynt wedi dweud wrth eu meddygon teulu am y sgil-effeithiau rhag ofn y bydd y meddygon naill ai'n codi'r dos neu'n rhoi presgripsiwn am feddyginiaeth arall, cryfach. Nid ydynt ychwaith wedi dweud wrth eu meddygon teulu eu bod wedi stopio cymryd y feddyginiaeth. Er eu bod yn teimlo bod y feddyginiaeth yn eu gwneud yn *llai* abl i ofalu am eu plant, roeddent yn pryderu'n fawr y gallai'r gwasanaethau cymdeithasol gael mynediad at eu cofnodion meddygol a chymryd safbwynt negyddol pe byddent yn gwrthod presgripsiwn am feddyginiaeth sydd i fod i wella eu hiechyd meddwl.

Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r canfyddiadau o'n gwaith ymgysylltu a'n digwyddiadau rhanddeiliaid yn fuan, a bydd hwn yn nodi'r pryderon hyn yn fanylach.

Fodd bynnag, oherwydd amserlen yr ymchwiliad, ni fyddwn yn gallu rhoi i'r mater hollbwysig hwn yr amser a'r sylw y mae'n eu haeddu.

Gobeithio felly y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi ac y gallwch ei hystyried fel rhan o unrhyw waith yr ydych yn ymgymryd ag ef ar feddyginiaeth ar gyfer problemau iechyd meddwl. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein gwaith, mae croeso i chi gysylltu â'n clercod yn uniongyrchol, a byddant yn hapus i ddarparu deunydd briffio ychwanegol ar ein canfyddiadau hyd yma.

Yn gywir,

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS

Cadeirydd